# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar yr 9fed o Chwefror 2022
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn
# am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Wyn Jones a Gerallt Davies.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Ruby Williams, Carys Morgan, Garym Roberts, Jocelyn Andrew, Wyn Evans a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Ionawr a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Roedd y clerc wedi cysylltu â Gari Jones, peiriannydd Cyngor Sir Ceredigion i ofyn sut oedd datblygiadau rhan ddwetha'r palmant I Rhiw Goch yn dod mlan a dywedodd achos ail strwythuro yr adran fod llythyron heb eu danfon i'r trigolion eto.

Hefyd cysylltodd y clerc â'r adran gynllunio i ofyn pam roedd y pwyllgor wedi derbyn yr ymgynghoriad cynllunio Fferm Bargoed,

Llwyncelyn sydd ym mhlwyf Llanarth ac esboniodd y rheswm oedd ei fod mor agos i blwyf Henfynyw.

**Mater cynllunio:**

Rhif Cais A211130.
Rhyd-y-gofaint, Llwyncelyn, Aberaeron
Codi adeilad fferm a storfa slyri.
Dim gwrthwynebiad.

**Unrhyw Fater Arall:**

Soniodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies ei fod wedi cysylltu a'r Cyngor Sir a fod llythyron wedi cael eu danfon i'r trigolion fydd yn gysylltiedig a'r palmant sydd fod ei osod yn y rhan olaf o Rhiw Goch.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 9fed o Fawrth.